Gofynnwch am: Cyfathrebu
01656 641150
cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Medi 2021

Charles Janczewski
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Trwy ebost yn unig: charles.janczewski@wales.nhs.uk

**Llythyrau Blynyddol 2020/21**

Annwyl Charles

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r Llythyr Blynyddol (2020/21) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r llythyr hwn yn trafod gwybodaeth o flwyddyn a fu'n wahanol i unrhyw un arall yn y cof diweddar, ac felly efallai na fydd yn ddefnyddiol ar gyfer sefydlu tueddiadau neu batrymau. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ryfeddol hon yn dod â mewnwelediadau ar sut ymatebodd gwasanaethau cyhoeddus i alw digynsail a'r amgylchiadau anoddaf a fu.

Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn anochel yn sgil pandemig Covid 19, rwy'n falch iawn â lefel yr ymgysylltiad a ddangoswyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan fy staff safonau cwynion.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rydym wedi ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) yn yr un gyfran o gwynion am gyrff cyhoeddus, sef 20%, o gymharu â 2019/20.

Y llynedd, gwelsom ostyngiad o 22% mewn cwynion newydd yn ymwneud â Byrddau Iechyd - gostyngiad rhagweladwy o ystyried amgylchiadau'r flwyddyn. Fodd bynnag, ymyrrodd fy Swyddfa ychydig yn amlach mewn cwynion yn ymwneud â Byrddau Iechyd, 33% o gymharu â 31% yn 2019/20.

Yn ystod 2020/21, er gwaethaf heriau a achoswyd gan y pandemig, cymerwyd camau breision gan fy swyddfa wrth wneud cynydd â gwaith yn ymwneud â Safonau Cwynion ac Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun. Lansiwyd thema a chyfnod ymgynghori'r Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun Ehangach cyntaf - i Asesiadau



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Digartrefedd Awdurdodau Lleol - ym mis Medi 2020 a disgwylir yr adroddiad yn y misoedd nesaf.   Cychwynnom hefyd 4 Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun estynedig, lle gwnaethom ymestyn cwmpas ein gwaith ar gŵyn sydd eisoes yn destun ymchwil.

Y llynedd, bwriodd fy swyddfa ymlaen hefyd â dau gyhoeddiad newydd - 'Ein Canfyddiadau' a'n Hadroddiad Cydraddoldeb cyntaf.

Bydd modd cyrchu 'Ein Canfyddiadau' trwy wefan OGCC a bydd yn disodli'r coflyfrau chwarterol.   Bydd Ein Canfyddiadau yn cael ei ddiweddaru'n amlach, a bydd yn offer mwy defnyddiol wrth rannu canlyniadau ymchwiliadau.   Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb cyntaf yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac i sicrhau bod ein gwasanaeth ar gael i bobl o bob rhan o'r gymdeithas.

Gweler ynghlwm grynodeb o'r cwynion o gamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Bwrdd Iechyd.

Gofynnaf i'r Bwrdd Iechyd gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Bwrdd i gynorthwyo aelodau'r Bwrdd i graffu ar berfformiad cwynion y Bwrdd Iechyd a'u hystyriaeth o unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad.
- Ymgysylltu â'm gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y Bwrdd Iechyd yng nghyswllt y materion uchod erbyn 15 Tachwedd.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Bwrdd Iechyd a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir



Nick Bennett
Yr Ombwdsmon

Cc: Len Richards, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Trwy ebost yn unig: len.richards@wales.nhs.uk

## Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| Bwrdd Iechyd | Cwynion a Gafwyd | Derbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 96 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 184 | 0.26 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 62 | 0.12 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 86 | 0.19 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 64 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 16 | 0.12 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 79 | 0.20 |
| Cyfanswm | 587 | 0.19 |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Ambiwlans | 0 | 0% |
| Apwyntiadau/derbyniadau/rhyddhau a gweithdrefnau trosglwyddo | 1 | 2% |
| Triniaeth glinigol yn yr ysbyty | 50 | 81% |
| Triniaeth glinigol y tu allan i ysbyty | 3 | 5% |
| Ymdrin â Chwynion | 4 | 6% |
| Cyfrinachedd | 0 | 0% |
| Gofal Parhaus | 2 | 3% |
| COVID19 | 0 | 0% |
| Datgelu gwybodaeth bersonol / colli data | 0 | 0% |
| Cyllid | 0 | 0% |
| Cofnodion meddygol/safonau cadw cofnodion | 1 | 2% |
| Meddyginiaeth> Dosbarthu presgripsiynau | 0 | 0% |
| Darparwr Annibynnol y GIG | 0 | 0% |
| Gwasanaethau anfeddygol | 1 | 2% |
| Arall | 0 | 0% |
| Materion rhestr cleifion | 0 | 0% |
| Cyfathrebu gwael/dim cyfathrebu neu fethiant i ddarparu gwybodaeth | 0 | 0% |
| Anghwrteisi/ymddygiad anystyriol/agwedd staff | 0 | 0% |
| | 62 | |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| | Tu hwnt i Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol | Wedi rhoi'r gorau iddi | Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 17 | 9 | 18 | 8 | 1 | 6 | 13 | 0 | 72 |
| | 24% | 13% | 25% | 11% | 1% | 8% | 18% | 0% | |

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | **Nifer yr ymyriadau** | **nifer y cwynion a gaewyd** | **% o ymyriadau** |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 38 | 106 | 36% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 68 | 194 | 35% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 21 | 72 | 29% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 19 | 83 | 23% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 33 | 74 | 45% |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 5 | 17 | 29% |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 25 | 80 | 31% |
| **Cyfanswm** | **209** | **626** | 33% |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yn 2020/2021.  Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau’r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â’r Bwrdd Iechyd yn 2020/2021 Mae’r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a’r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yn 2020/2021.  Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio